Newyddion y Tabernacl

Hydref 23 a 30, 2016

Y Suliau Nesaf

Hydref 30 – Eirian gyda Carol Williams yn llywyddu,
Taflen: Eirian Sgrin: Mal Pate Cyfeilio: Eleri

Tachwedd 6 – Lowri Roberts, cyfraniadau gan Groesfaen a'r Parchg Gethin Rhys
Cyfeiliant: Geraint
Taflen a Sgrin: Lowri

Tachwedd 13 – Y Parchg. Ddr. R Alun Evans, Llywydd: Celt Hughes,
Taflen: Glenys Roberts
Sgrin: Gwion Evans
Cyfeiliant: Bethan Roberts

Tachwedd 20 – Allan James, a Wendy Reynolds yn Llywyddu, i gynnwys y Cwrdd Blynyddol
Taflen a Sgrin: Ceri Anwen, Cyfeiliant :Rhiannon

Tachwedd 27 - Y Parchg. Dewi Myrddin Hughes,
Llywydd: Huw Roberts Taflen: Gwilym ac Eleri Huws,
Sgrin: Carwyn Lloyd Jones,
Cyfeiliant:Sian Elin

Ail Hysbyseb
Rheolwr Safle (Rhan-amser)
Gwahoddir ceisiadau am Reolwr Safle i'r Capel. Disgwylir i'r sawl a benodir ddechrau ar 1af Ionawr 2017.
Am fanylion pellach, cysylltwch ag un o'r canlynol: Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk/ 07710 237327) Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk)
Wendy Reynolds (w.reynolds33@btinternet.com)
Dyddiad Cau: Dydd Gwener 4 Tachwedd

Enwebu Cyfarwyddwyr

Daeth yn amser unwaith yn rhagor i enwebu aelodau newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae ffurflenni enwebu ar gael gan Gwilym Huws, a dylid eu dychwelyd naill ai i Gwilym neu i'r Cadeirydd, Wendy Reynolds, erbyn dydd Sul 6 Tachwedd.

Cofiwch fod pob gwybodaeth am fywyd yr eglwys ar gael ar y wefan, www.tabernacl.org ac os hoffech chi ragor o fanylion am unrhyw agwedd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws: gehpengwern@yahoo.co.uk/ 07710 237327

ELUSENNAU 2017

Mae hi'n amser i'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol gyflwyno rhestr elusennau 2017 i'r Cyfarwyddwyr,
er mwyn cael sêl eu bendith.
Os oes gan unrhyw un ohonoch chi awgrym, cysylltwch â John Ll Thomas neu Ann D Davies cyn Tachwedd 8fed.
Fel arfer, rydyn ni'n cefnogi elusennau lleol y bydd rhodd o ychydig gannoedd o bunnoedd yn gwneud gwahaniaeth iddyn nhw. Diolch yn fawr iawn
johnllewt@hotmail.com
ann.pentyrch@btinternet.com

HELPU FFOADURIAID

Mae lluniau diweddaraf ein casgliad dillad ar gyfer ffoaduriaid yng ngwersyll Moria yng Ngwlad Groeg ar wefan y capel yn yr adran newyddion.
www.tabernacl.org

Elusennau'r Capel Eleni

Mae cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pump o elusennau lleol:

1. Gofalwyr Ifanc,
2. Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl, Aberdâr,
3. Ysgol Tŷ Coch,
4. Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru Y Samariaid, a
5. Eye to Eye Counselling Service, Rhondda Cynon Taf.

Cyfarfod Blynyddol y Capel

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y capel fore Sul 20 Tachwedd yn dilyn yr oedfa.

UN ARALL O ELUSENNAU 2016

Mae hi'n flwyddyn ers i'r Samariaid, sy'n elusen gyfarwydd i bawb, lansio eu prosiect peilot yng Nghymoedd y De. Er eu bod ar gael i bawb sydd eu hangen ar ben arall y ffôn, maen nhw'n credu'n gryf mewn presenoldeb yn y gymuned er mwyn adnabod amgylchiadau cymdeithasol sy'n peri gofid ac anobaith i unigolion. Mae'r prosiect hwn yn arwyddocaol iddyn nhw am fod y gyfradd o ddynion sy'n cyflawni hunanladdiad yng Nghymru ar ei huchaf ers 1981. Mae'n bwysig iawn bod y prosiect newydd hwn yn cael cefnogaeth ariannol.

Nos Wener 25 Tachwedd 2016 am 8.00pm.
GRUFFUDD OWEN
yn siarad ar y testun:
'Hel llus yn y glaw'
(Rhestr Fer Llyfr y Flwyddyn 2016)
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

Nos Wener 20 Ionawr 2017 am 8.00pm
Dr WYNNE DAVIES
yn siarad ar y testun:
'Ar gefn ei geffyl'
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf



Cyngerdd Cofio John Albert

Bu'r diweddar John Albert Evans yn athro yng Nghaerdydd am flynyddoedd cyn ymgymryd â swydd Prif Drefnydd Iaith Canol Morgannwg. Disgrifiwyd ef fel un o arloeswyr dysgu'r Gymraeg. Hefyd bu'n frwd ei gyfraniad i nifer o sefydliadau'r Brifddinas. A bron i flwyddyn ers iddo'n gadael, cynhelir cyngerdd arbennig i gofio amdano yn Eglwys Y Tabernacl, Yr Ais nos Wener 18 Tachwedd am 7.45yh.

Dewch yn llu i gofio am ei gyfraniad i fywyd Cymraeg y brifddinas a thu hwnt.

Tocynnau: £10 (Yr elw tuag at waith y Stafell Fyw Caerdydd). Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda Stafell Fyw Caerdydd ar 02920 493895.

Cofiwch wefan y Capel
www.tabernacl.org a www.cristnogaeth21.cymru

Tafod y Tab
Cyhoeddir rhifyn nesaf y *Tafod* ym mis Ionawr 2017. Rydym yn chwilio am wirfoddolwr/wyr sy'n barod i weithredu fel golygydd/ion. Rhowch wybod i Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk) erbyn diwedd mis Hydref os medrwch ein cynorthwyo

Darlith Edward Llwyd

Yr Athro E. Wyn James fydd yn traddodi darlith eleni ar y testun**""Mynnwch ddysg yn eich iaith": Maniffesto William Salesbury'** ym Mhrifysgol Caerdydd nos Fawrth 15 Tachwedd.